




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Hawdd ei Ddeall

Rhif: WG45808

Urddas mislif


Beth yw barn pobl am ein cynllun



Dyma fersiwn hawdd ei darllen o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar '**Gynllun Gweithredu Strategol Urddas Mislif**'.

Chwefror 2023

Cyflwyniad



Gwnaeth Llywodraeth Cymru gynllun ar gyfer gwella'r mislif i bobl yng Nghymru.

Mae'n galw hyn yn '**Urddas Mislif**' ac mae'n golygu pethau fel:



- Dylai pobl allu cael y nwyddau mislif sydd eu hangen arnynt
- Ni ddylai pobl deimlo cywilydd ynghylch cael eu mislif
- I bawb gael eu trin yn gyfartal ac yn deg.



Gofynnodd Llywodraeth Cymru i bobl ddweud wrthynt beth oedd eu barn am y cynllun.

Mae'r adroddiad hwn yn esbonio'r hyn a ddywedodd pobl.

Pwy atebodd



Atebodd dau gant a hanner (250) o bobl a sefydliadau yr ymgynghoriad.

Yr hyn a ddywedodd pobl



Roedd y rhan fwyaf ohonoch yn cytuno gyda'r syniadau yn y cynllun. Yr oeddech yn cefnogi mwy o ymdrechion i sicrhau bod gennym urddas mislif yng Nghymru.



Gofynnodd chi i ni ddefnyddio'r geiriau 'menywod' a 'merched' yn y cynllun, yn hytrach na 'y rhai sy'n cael mislif'.

Roeddech yn poeni bod peidio â defnyddio 'menywod' neu 'ferched' yn gwneud y cynllun yn ddryslyd ac yn anodd ei ddeall.

Dwedocho chi ei bod yn bwysig gwneud mwy o bobl yn ymwybodol o urddas mislif.



Dwedocho chi bod yn bwysig siarad am mislif yn amlach mewn ysgolion. Mae hyn yn bwysig i ferched a bechgyn.



Dwedocho chi fod angen i feddygon wybod mwy am iechyd a mislif menywod. Rydych chi am iddi fod yn haws cysylltu ag arbenigwyr a all helpu gyda chyfnodau.

Dwedocho chi fod angen mwy o ymchwil i iechyd menywod.



Dwedocho chi y byddai cael mwy o wybodaeth ar gael am y mislif yn atal pobl rhag teimlo embaras.

Dwedocho chi y dylai cyflogwyr ddangos mwy o ddealltwriaeth am y mislif.



Dywedoch chi fod mynediad at nwyddau mislif am ddim yn bwysig i'r rhai sydd eu hangen.

Roeddech am i Lywodraeth Cymru feddwl pa fath o gynnyrch fyddai'n addas yn dibynnu ar gefndir neu anghenion pob unigolyn. Dylai feddwl am ddiwylliant pobl, a sicrhau bod nwyddau ar gael y gellir eu hailddefnyddio a bod nwyddau yn addas i'r rhai ag anabledd.



Nid oeddech yn siŵr a all Llywodraeth Cymru wneud hyn i gyd yn ystod y 5 mlynedd nesaf.

Dywedoch chi fod angen mwy o addysg ac arian i wneud i'r cynllun ddigwydd. Dywedoch chi y bydd yn rhaid i ysgolion, busnesau, meddygon a'r llywodraeth helpu gyda'r cynllun.

Dywedoch chi y byddai helpu rhai pobl i deimlo llai o embaras am y mislif yn cymryd mwy na 5 mlynedd.



Gofynnoch chi i Lywodraeth Cymru feddwl sut y gallai ddweud mwy o bobl am y cynllun, yn enwedig pobl sy'n byw mewn tloedi, pobl sy'n siarad ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg, a phobl o wahanol ddiwylliannau a allai fod â syniadau gwahanol am y mislif.

Dywedoch y dylid cael rhagor o wybodaeth am sut y bydd y newidiadau yn y cynllun yn digwydd. Roeddech am wybod o ble daw'r arian. Roeddech chi eisiau gwybod a fyddai nwyddau mislif yn rhad ac am ddim i bawb.



Nid oeddech yn siŵr beth arall y dylai Llywodraeth Cymru ei wneud am faterion iechyd eraill menywod.

Dywedodd rhai ohonoch y dylai'r materion iechyd sy'n gysylltiedig â'r mislif gael eu cynnwys yn y cynllun hefyd.

Dywedodd pobl eraill fod y materion iechyd eraill hyn yn bwysig felly dylent gael eu cynllun eu hunain. Dywedochn chi hefyd fod gan y cynllun urddas mislif lawer o syniadau eisoes ac y byddai'n rhy gymhleth pe bai'n cynnwys y materion iechyd hyn hefyd.



Dywedoch chi y dylai'r holl wybodaeth am y mislif a'r cynllun fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.



Roeddech yn poeni am bobl nad ydynt yn gallu fforddio nwyddau mislif. Dywedoch fod hyn yn rhan o broblem ehangach.

Dywedoch chi, os na all rhywun fforddio prynu nwyddau mislif yna mae pethau eraill na allant eu fforddio, ac y dylid eu helpu.

Dywedoch chi hefyd fod methu â fforddio cynhyrchion mislif yn dangos bod peidio â chael digon o arian yn effeithio ar ddynion a menywod mewn gwahanol ffyrdd.